**Y PWYLLGOR ADOLYGU ARCHWILIO A GWASANAETHAU CORFFORAETHOL**

**8 Gorffennaf 2020**

Yn bresennol: Y Cynghorydd D Clements (Cadeirydd)
Y Cynghorydd P Baker, Dr R Heath Davies, Mrs S Hoss, y Cynghorydd M James, Mr G Jones a'r Cynghorydd M Williams.

(Cyfarfod Rhithwir: 10.00am – 11.15am)

**1. Ethol Cadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol y Cynghorydd Mrs D Clements yn Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**2. Ethol Dirprwy Gadeirydd**
**PENDERFYNWYD YN UNFRYDOL** i ethol Dr R Heath-Davies yn Ddirprwy Gadeirydd am y flwyddyn i ddod.

**3. Ymddiheuriadau**
Derbyniwyd ymddiheuriadau am fethu â bod yn bresennol gan y Cynghorydd P Kidney a'r Cynghorydd R Owens.

**4. Datgelu buddiant**
Ni ddatgelwyd unrhyw fuddiant.

**5. Cofnodion**
Cyflwynwyd cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2020 i'w cadarnhau a'u hawdurdodi.

**PENDERFYNWYD** cadarnhau ac awdurdodi cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 15 Mai 2020.

**6. Materion yn Codi**
Nid oedd unrhyw faterion yn codi.

**7. Adroddiad Perfformiad ar gyfer y Cyfnod a ddaeth i ben ar 31 Mai 2020**
Dilynodd yr adroddiad strwythur y Cynllun Corfforaethol ac Adnoddau ar gyfer 2020/21. Roedd y Cynllun mewn dwy ran – roedd y rhan gyntaf yn seiliedig ar y cynnydd yn erbyn blaenoriaethau tymor byr a thymor canolig a oedd yn canolbwyntio ar ymateb yr Awdurdod i COVID-19 a'r gwaith cynllunio ar gyfer adferiad; roedd yr ail ran yn amlinellu'r cynnydd yn erbyn ffrydiau gwaith a oedd yn cyfrannu at gyflawni'r Amcanion Llesiant a'u heffeithiau yng Nghynllun Rheoli'r Parc Cenedlaethol dros y

tymor hwy. Byddai'r rhan hon, wrth symud ymlaen, yn rhoi darlun o effaith COVID-19 a'r adferiad ar y gwaith cyflawni ac ar y prosiectau ar draws yr amcanion llesiant dros y tymor hir. Efallai y bydd cynnydd o ran rhai gweithgareddau o fewn y ffrydiau gwaith yn ystod 2020/21, ond efallai na fydd modd bwrw ymlaen â nifer ohonynt, yn enwedig y rhai sy'n cynnwys cyswllt wyneb yn wyneb rhwng unigolion, hyd nes i'r cyfyngiadau gael eu llacio'n rhannol neu'n llawn. Mewn rhai achosion byddai hyn yn golygu efallai na fyddai gweithgareddau o dan rai ffrydiau gwaith yn cael eu cynnal yn ystod 2020/21. Byddai gweithgareddau o dan ffrydiau gwaith yn destun adolygiad pellach yn ystod y flwyddyn i asesu a ydynt yn parhau i fod yn berthnasol neu a oes angen eu diweddaru i alinio â chynlluniau adfer.

Roedd yr adroddiad yn cynnwys y perfformiad hyd at 31 Mai 2020. Oherwydd y cyfnod adrodd, dim ond yn wythnosol ac yn fisol yr oedd data ystadegol ar gael ar gyfer ffrydiau gwaith. Byddai ystadegau chwarter 1 ar gyfer setiau data a gofnodir bob chwarter ar y system yn cael eu cyflwyno yn y Pwyllgor nesaf.

Amlinellodd adroddiad y Cydgysylltydd Perfformiad a Chydymffurfiaeth sut roedd yr Awdurdod wedi ymateb i reoliadau COVID-19 a'r gwaith a oedd wedi ailddechrau ers i rai o'r cyfyngiadau gael eu llacio  Nodwyd bod mwyafrif y prosiectau a'r gweithgareddau wedi cael eu gohirio ym mis Mai, naill ai oherwydd ail-flaenoriaethu gwaith i ymateb i COVID-19 a chynllunio'r adferiad neu oherwydd effaith y rheoliadau ar allu agweddau ar brosiectau a gwasanaethau i gael eu darparu.

Nodwyd yn y cyfarfod, ers ysgrifennu'r adroddiad, fod Llwybr yr Arfordir a'r meysydd parcio wedi ailagor, a bod asesiadau risg yn cael eu gwneud er mwyn medru cynnal ymweliadau safle.  Nodwyd hefyd bod Cynllun Adfer Cyfathrebu ar waith a'i fod wedi cael ei ddosbarthu ymhlith yr Aelodau eisoes.

Diolchodd yr aelodau i'r swyddog am adroddiad cynhwysfawr a ddangosodd y nifer fawr o gamau cadarnhaol a gymerwyd, ac am gynnwys eglurhad  am y dangosyddion statws coch, oren a gwyrdd. Cyfeiriodd nifer o Aelodau at bwysigrwydd yr ymdrechion i adfer y system gynllunio i ryw fath o normalrwydd a gofynnwyd a ellid dod o hyd i ffyrdd creadigol o gyflawni rhai o'r tasgau.  Atebodd y Prif Weithredwr fod y system gynllunio yn parhau i weithredu, ond roedd rhai agweddau arni yn anoddach i'w gwneud a byddai Cyfarwyddwr Cynllunio a Chyfarwyddyd y Parc yn ysgrifennu at yr Aelodau yn fuan i roi'r wybodaeth ddiweddaraf iddynt am y sefyllfa bresennol.  Gofynnwyd cwestiwn am yr amserlen ar gyfer mabwysiadu'r Cynllun Datblygu Lleol ac esboniodd y Prif Weithredwr nad oedd yr Awdurdod yn gallu mabwysiadu'r ddogfen ar hyn o bryd oherwydd bod rheoliadau Llywodraeth Cymru yn ei gwneud yn

ofynnol bod y dogfennau ar gael i'r cyhoedd mewn llyfrgelloedd ac yn swyddfeydd yr Awdurdod.  Ychwanegodd fod y sefyllfa bresennol wedi tynnu sylw at feysydd lle'r oedd angen diweddaru prosesau, fel hysbysebu ceisiadau cynllunio, er mwyn cynyddu effeithlonrwydd a lleihau costau, ond mater cenedlaethol oedd hwn.

Gofynnodd Aelod arall a oedd angen unrhyw wiriadau ychwanegol yn yr amgylchiadau presennol i frwydro yn erbyn twyll ar-lein, a rhoddodd y Rheolwr Cyllid sicrwydd i'r Pwyllgor, ar ôl rhoi rhai gweithdrefnau newydd ar waith, bod taliadau'n parhau i gael eu gwneud cyn pen 14 diwrnod ac yn unol â’r Rheolau Sefydlog Ariannol.

**NODWYD**

**8. Y Diweddaraf am Iechyd a Diogelwch**

Yn dilyn adborth mewn cyfarfod blaenorol o'r Pwyllgor, amlinellodd adroddiad y Rheolwr Adnoddau Dynol ddigwyddiadau a damweiniau a hysbyswyd trwy brosesau mewnol yr Awdurdod rhwng mis Ebrill a mis Mehefin 2020.

Roedd yr adroddiad yn crynhoi'r camau a gymerwyd mewn ymateb i bob digwyddiad, ond y tro hwn yr unig ddigwyddiadau oedd galwadau larwm. Nodwyd na fu unrhyw ddigwyddiadau i’w hysbysu i'r Weithrediaeth Iechyd a Diogelwch o dan Reoliadau Adrodd am Anafiadau, Clefydau a Digwyddiadau Peryglus 2013 (RIDDOR).  Aeth yr adroddiad ymlaen i roi'r wybodaeth ddiweddaraf am nifer o feysydd prosiect, gan gynnwys y Safon Iechyd Corfforaethol, diogelu ac ymateb yr Awdurdod i’r pandemig COVID-19.

Dywedodd y Prif Weithredwr, gan fod y Rheolwr Adnoddau Dynol yn sâl y bore hwnnw, y byddai ef yn ateb cwestiynau’r Aelodau.  O ran ymateb COVID-19 yr Awdurdod, dywedodd fod mwyafrif y staff bellach wedi dychwelyd i'r gwaith.  Y gobaith oedd y byddai'r canolfannau'n ailagor yn ystod yr ychydig wythnosau nesaf, ond y byddai mwyafrif staff Llanion yn parhau i weithio gartref.  Roedd nifer fach o staff yn mynd i mewn i'r adeilad hwnnw yn ôl yr angen, gan gynnwys y rhai sy'n cyflawni tasgau monitro a chynnal a chadw, a pharatoi ar gyfer ailagor yr adeilad i'r cyhoedd.  Gofynnodd yr Aelodau nifer o gwestiynau ynghylch yr addasiadau a oedd yn cael eu gwneud a llesiant y staff, a rhoddodd y Prif Weithredwr sicrwydd iddynt fod yr Awdurdod yn cydymffurfio â'r holl ganllawiau gan Lywodraeth Cymru, y Bwrdd Iechyd a'r Awdurdod Lleol, ac yn cynnal asesiadau risg i sicrhau diogelwch y staff a’r cyhoedd.

**NODWYD.**

**9. Cofrestr Risg**

Gofynnwyd i'r Aelodau ystyried y gofrestr risg ddiweddaraf, a adolygwyd gan y Tîm Rheoli a’r Tîm Arweinyddiaeth. Nodwyd bod risgiau ychwanegol wedi'u hychwanegu at ddiwedd y gofrestr a bod diweddariadau eraill wedi'u darparu.

Nodwyd bod y daenlen yn eithaf mawr ac nad oedd yn hawdd iawn ei darllen ar y sgrin, felly gwnaed cais i gylchredeg copi papur o'r ddogfen.

Bu peth trafodaeth ynghylch sefyllfa ariannol yr Awdurdod o ganlyniad i Covid-19 (Risg 46) a'r mesurau lliniaru yr oedd yr Awdurdod wedi'u cymryd. Gofynnwyd cwestiynau hefyd ynghylch risgiau 11, 17, 18 a 22 a chytunodd y Rheolwr Cyllid i newid y gofrestr wrth symud ymlaen.

**NODWYD**

**10. Y Diweddaraf am ar y Datganiad Cyfrifon**

Dywedodd y Rheolwr Cyllid y byddai drafft o gyfrifon yr Awdurdod yn cael ei gwblhau erbyn diwedd mis Mai fel arfer, ond eleni roedd Archwiliad Cymru wedi dweud y byddai newidiadau i’r ddeddfwriaeth oherwydd pandemig COVID-19 a fyddai’n ymestyn y dyddiad cau hwnnw tan 31 Awst. Fodd bynnag, roedd yn falch o adrodd bod cyfrifon yr Awdurdod wedi'u cwblhau ddiwedd mis Mehefin a'u bod bellach gydag Archwiliad Cymru. Roeddent yn bwriadu cychwyn ar eu harchwiliad (o bell) yn ystod yr wythnos yn dechrau 20 Gorffennaf a'r gobaith oedd y byddai'r cyfrifon terfynol yn cael eu cyflwyno i Awdurdod y Parc Cenedlaethol ar 30 Medi. Roedd yn dymuno diolch i'w gydweithwyr am eu gwaith caled yn casglu ynghyd yr holl wybodaeth angenrheidiol.

Aeth y Rheolwr Cyllid ymlaen i gyflwyno dyfyniadau o'r cyfrifon drafft, a dosbarthwyd y wybodaeth i'r Aelodau cyn y cyfarfod. Dangoswyd fod y cyllid refeniw ar gyfer 2019/20 yn debyg i’r un yn 2018/19 ar £7.7 miliwn, gyda Grant y Parc Cenedlaethol gan Lywodraeth Cymru yn aros yr un fath ar £2,954k Roedd y gyllideb gyfalaf wedi cynyddu oherwydd gwariant sylweddol yng Nghastell Caeriw ac oherwydd bod trwyddedau untro wedi eu prynu ar gyfer Microsoft Office.

O ran incwm a gynhyrchwyd gan yr Awdurdod, roedd y ffioedd cynllunio wedi gostwng o £253k i £184k, tuedd a oedd wedi parhau ers 2017/18, ond roedd incwm arall wedi cynyddu oherwydd cyfraniadau gan Ymddiriedolaeth Parc Cenedlaethol Arfordir Penfro (tua £30k) ac etifeddiaeth o £10k.

Gan droi at wariant, roedd cost gweithwyr wedi cynyddu o ganlyniad i ddyfarniad cyflog o 2% a oedd, oherwydd effaith y Cyflog Byw, wedi

arwain at fod y cynnydd yn agosach at 6% ar gyfer y rhai ar raddfeydd cyflog is.  Yn ogystal, roedd 6 swydd wedi'u llenwi.

O fewn cyllidebau adrannol, roedd Hyrwyddo Dealltwriaeth, a oedd yn cwmpasu'r canolfannau a chyfathrebu, wedi gostwng £66k o gymharu â’r gyllideb oherwydd cyfuniad o incwm gostyngedig a chostau uwch Coast to Coast, gostyngiad yn yr incwm o Gastell Henllys, ac oherwydd bod costau brandio a dylunio’r wefan yn uwch na’r gyllideb.  Fodd bynnag, roedd hyn wedi'i wrthbwyso'n rhannol gan danwariant yng nghyllideb y Parcmyn, Ystadau a Gwirfoddolwyr oherwydd grant cyfalaf gan Lywodraeth Cymru a oedd wedi arwain at arbedion gweithredol yng nghyllideb y Parcmyn.  Roedd gwarged cyffredinol o £2k ar ddiwedd y flwyddyn.

O ran incwm 2019/20 yn erbyn y gyllideb a blynyddoedd blaenorol, roedd gwerthiant nwyddau yn y canolfannau £23k yn is na'r gyllideb, ond roedd incwm o’r meysydd parcio yn uwch na'r gyllideb, er gwaethaf y ffaith nad oedd incwm o gwbl o’r llinell gyllideb hon yn ystod pythefnos olaf mis Mawrth.

Yn olaf, dangosodd y fantolen gryno fod arian parod mewn llaw wedi gostwng oherwydd talu grantiau; bod darpariaeth wedi’i gwneud ar gyfer y posibilrwydd o ad-dalu ffioedd hysbysebu Coast to Coast o ganlyniad i COVID-19, er na wnaed unrhyw benderfyniad terfynol ynghylch a fyddai hyn yn cael ei gynnig.  Bu cynnydd hefyd yn y rhwymedigaethau pensiwn o ganlyniad i ostyngiad yng ngwerth asedau pensiwn yn sgil effaith COVID-19 ar y marchnadoedd ddiwedd mis Mawrth.

Diolchodd y Cadeirydd, ar ran yr holl Aelodau, i'r Rheolwr Cyllid a'i dîm am eu gwaith caled yn paratoi'r cyfrifon cyn y dyddiad cau.

**NODWYD.**

**11. Cyflwyno Cynllun Adfer APCAP**

Ymddiheurodd y Prif Weithredwr nad oedd y cynllun ganddo ar ffurf y gellid ei gyflwyno i'r Pwyllgor a dywedodd y byddai'n anfon copi electronig i'r Aelodau roi sylwadau arno.

**NODWYD.**

**12. Dirprwyo unrhyw faterion i'w hystyried gan y Grŵp Gwella Parhaus**

**PENDERFYNWYD** nad oedd unrhyw faterion yr oedd y Pwyllgor yn awyddus i’w dirprwyo i'r Grŵp Gwella Parhaus i'w hystyried.

---

Cadarnhawyd y cofnodion hyn yn y cyfarfod o’r Pwyllgor Adolygu Archwilio a Gwasanaethau Corfforaethol a gynhaliwyd ar 11/11/2020 heb eu diwygio.